Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Y Bil Lles Plant ac Ysgolion: Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

19 Medi 2025

## 1. Cyflwyniad

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") a'r ddau Femorandwm Atodol ("y Memoranda Atodol") ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion ("y Bil").

### Y Bil

**2.** Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Rhagfyr 2024. Mae wedi pasio drwy Dŷ'r Cyffredin. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y Bil yn y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.

**3.** Mae enw hir y Bil yn nodi ei ddiben, sef:

> *"A Bill to make provision about the safeguarding and welfare of children; about support for children in care or leaving care; about regulation of care workers; about regulation of establishments and agencies under Part 2 of the Care Standards Act 2000; about employment of children; about breakfast club provision and school uniform; about attendance*

*of children at school; about regulation of independent educational institutions; about inspections of schools and colleges; about teacher misconduct; about Academies and teachers at Academies; repealing section 128 of the Education Act 2002; about school places and admissions; about establishing new schools; and for connected purposes."*[1]

## Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

**4.** Mae Rheol Sefydlog 29.1 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fo Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth "mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig."[2] Rhaid i Lywodraeth Cymru osod memorandwm mewn perthynas â Bil o'r fath, a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl:

- cyflwyno'r Bil sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru yn Nhŷ cyntaf Senedd y DU; a
- chyflwyno neu dderbyn gwelliannau i unrhyw Fil sy'n gwneud (neu a fyddai'n gwneud) darpariaeth mewn perthynas â Chymru.[3]

**5.** Gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ("yr Ysgrifennydd Cabinet") Femorandwm mewn perthynas â'r Bil hwn ar 24 Mawrth 2025.[4] Gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Atodol ("Memorandwm Rhif 2") ar 28 Mai 2025.[5] Gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Atodol terfynol ("Memorandwm Rhif 3") ar 12 Mehefin 2025.[6]

**6.** Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac at y Pwyllgor hwn, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd 16 Mai 2025.[7] Cafodd y dyddiad cau ei estyn wedi hynny i 11 Gorffennaf 2025.[8] Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y ddau Femorandwm Atodol

---

[1] Gwefan Senedd y DU, Biliau Seneddol, Y Bil Lles Plant ac Ysgolion [fel ar 14 Gorffennaf 2025]
[2] Senedd Cymru, Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Ionawr 2025, Rheol Sefydlog 29.1
[3] Senedd Cymru, Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Ionawr 2025, Rheol Sefydlog 29.2
[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Mawrth 2025
[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Mai 2025
[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Mehefin 2025
[7] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Mawrth 2025
[8] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Ebrill 2025

at yr un pwyllgorau gyda'r un dyddiad cau estynedig. Ar ôl i Femorandwm Rhif 3 gael ei osod, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad cau newydd ar gyfer cyflwyno adroddiad ar yr holl femoranda, sef 19 Medi 2025.[9]

**7.** Mae paragraff 7 o Femorandwm Rhif 3 yn rhoi crynodeb o'r hyn y mae'r Bil yn ei wneud yn ei gyfanrwydd.[10]

# 2. Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**8.** Pan gafodd ei gyflwyno, i Loegr yn unig yr oedd y Bil hwn yn gymwys. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm yn nodi bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer gwelliannau a gyflwynwyd ar 10 Mawrth 2025.[11] Mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer gwelliant a gyflwynwyd ar 13 Mai 2025.[12] Yn olaf, mae Memorandwm Rhif 3 yn nodi, ar ôl ystyried ymhellach, fod angen cydsyniad y Senedd hefyd ar gyfer darpariaethau ychwanegol sy'n ymwneud â phlant nad ydynt yn yr ysgol a darpariaethau canlyniadol.[13]

**9.** Mae Atodiad A i Nodiadau Esboniadol y Bil, fel y'u diweddarwyd ar 20 Mawrth 2025, yn nodi bod Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymalau 11, 20 a 30 i 35 o'r Bil ac Atodlen 2 iddo (cymalau 25-30 ac Atodlen 1 yn y fersiwn flaenorol). Mae'r Memorandwm yn defnyddio rhifau'r cymalau ar ôl Cyfnod Adrodd y Bil, ac yn cytuno bod angen cydsyniad mewn perthynas â chymalau 11, 20 a 25-29. Fodd bynnag, ni chyfeirir yn fanwl yn y Memorandwm at gymal 30 ac Atodlen 1 (cymal 35 ac Atodlen 2 erbyn hyn). Wedi hynny, trafodwyd cymal 35 ac Atodlen 2 ym Memorandwm Rhif 3.

## Cymal 11

**10.** Mae cymal 11 o'r Bil yn diwygio'r cyfeiriad yn adran 25 o Ddeddf Plant 1989 ("Deddf 1989"), sy'n ymdrin â'r defnydd o lety i gyfyngu ar ryddid plentyn yn

[9] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Mehefin 2025
[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, paragraff 7, Mehefin 2025
[11] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, paragraff 10, 24 Mawrth 2025
[12] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Mai 2025
[13] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Mehefin 2025

Lloegr. Mae cyfeiriadau yn adran 25 at gyfyngu ar (“restricting”) ryddid wedi’u newid i amddifadu (“depriving”) plant o’u rhyddid, er mwyn adlewyrchu natur a diben yr adran hon yn well.

**11.** Mae cymal 11 hefyd yn cyflwyno diwygiadau i adran 25 o Ddeddf 1989 i ddarparu fframwaith statudol i ganiatáu i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr awdurdodi amddifadu plant o’u rhyddid mewn mathau eraill o leoliadau y tu hwnt i gartref plant diogel yn Lloegr yn unig. Mae’n dod â llety a ddarperir at ddiben rhoi gofal a thriniaeth i blant, y gellir ei ddefnyddio i amddifadu plentyn o’i ryddid, fel y’i diffinnir yn is-adran newydd (1B), sef llety perthnasol (“relevant accommodation”), o fewn cwmpas adran 25 o Ddeddf 1989.

**12.** Fel y’i diwygir gan gymal 11, bydd adran 25 yn gymwys yng Nghymru i’r graddau y mae awdurdod lleol yng Nghymru yn ceisio lleoli plentyn mewn llety perthnasol yn Lloegr. Yn ôl y Memorandwm, ar hyn o bryd:

> *“Yn absenoldeb darpariaeth sy'n ymdrin ag awdurdod lleol yng Nghymru sy'n dymuno gosod plentyn mewn llety perthnasol yn Lloegr yn Mil y DU, yna byddai unrhyw leoliad sy'n cynnwys amddifadu o ryddid, nad yw mewn llety diogel yn Lloegr, gan awdurdod lleol yng Nghymru, yn golygu bod angen defnyddio awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys. Byddai'n debygol o greu ansicrwydd ynglŷn â'r prawf cywir i'r llysoedd ei gymhwyso pan fyddai awdurdodau lleol Cymru yn gwneud cais am awdurdodiad i osod plentyn yn y math newydd o leoliad diogel yn Lloegr ac yn creu ansicrwydd i awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau yng Nghymru. Yn y pen draw, gall rwystro'r cyfleoedd i blant ag anghenion penodol iawn o Gymru gael yr un mynediad i'r “llety perthnasol” â phlant o awdurdod lleol yn Lloegr.*
>
> *Gyda dim ond 1 Cartref Plant Diogel (SCH) yng Nghymru a 13 SCH yn Lloegr, nid oes digon o leoliadau o fewn SCH yng Nghymru i ateb y galw. Bydd newid i'r gyfraith i gynnwys awdurdodau lleol Cymru yn y prawf i'w gymhwyso wrth roi plant mewn “llety perthnasol” yn Lloegr yn sicrhau bod plant yn elwa o'r mesurau diogelu a'r amddiffyniadau a roddir gan gynllun statudol.”*[14]

[14] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, paragraffau 51-52, 24 Mawrth 2025

## Cymal 20

**13.** Mae cymal 20 o'r Bil yn diwygio Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 ("Deddf 2015"). Mae'r diwygiadau'n ymwneud â throseddau presennol yn Neddf 2015 sy'n gwahardd gweithwyr gofal a darparwyr gofal mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol rhag cam-drin unigolion neu eu hesgeuluso'n fwriadol.

**14.** Mae'r Memorandwm yn esbonio bod y troseddau presennol yn cynnwys cam-drin ac esgeuluso oedolion, gan weithwyr unigol neu ddarparwyr gofal, tra byddant yn derbyn gofal iechyd neu ofal cymdeithasol. Mae cam-drin plant sy'n derbyn gofal iechyd, neu eu hesgeuluso'n fwriadol, hefyd wedi'i gynnwys yn y troseddau presennol; fodd bynnag, nid yw cam-drin plant sy'n derbyn gofal cymdeithasol, neu eu hesgeuluso'n fwriadol, wedi'i gynnwys ar hyn o bryd.

**15.** Mae adran 1 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosedd sy'n eang ei chwmpas ac yn cynnwys creulondeb ac esgeulustod tuag at blant, ond dim ond i blant o dan 16 oed y mae hyn yn gymwys ac felly nid yw'r un amddiffyniadau'n cael eu rhoi i bobl ifanc 16 a 17 oed. Mae'r diwygiadau a gynigir gan gymal 20 o'r Bil yn ceisio cau'r bwlch hwn ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed.

**16.** Mae'r cymal yn gymwys i weithwyr gofal yn y lleoliadau a ganlyn yng Nghymru:

- gwasanaeth cartref gofal neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd;
- man lle y mae llety'n cael ei ddarparu i blant anabl;
- llety cadw ieuenctid yng Nghymru.

**17.** Dywed y Memorandwm:

> *"Bydd y diwygiadau arfaethedig yng nghymal 20 yn galluogi pobl ifanc 16 ac 17 oed i gael eu hamddiffyn yn yr un modd â phlant o dan 16 oed. Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol i'r grŵp oedran hwn. Byddai aros i ddeddfu yng Nghymru ar ddarpariaethau tebyg os ydynt eisoes ar waith yn Lloegr yn arwain at lai o amddiffyniadau i blant yng Nghymru mewn cymhariaeth. Pe bai Llywodraeth Cymru yn bwriadu deddfu yn*

> *y maes hwn, byddai'r oedi yn arwain at gyfnod pan nad yw plant yng Nghymru yn destun yr un amddiffyniadau â Lloegr.”*[15]

## Cymalau 25-30 ac Atodlen 1

**18.** Cymalau 30-35 ac Atodlen 2 yw’r darpariaethau hyn yn y fersiwn ddiweddaraf o’r Bil, ond cyfeirir atynt fel cymalau 25-30 ac Atodlen 1 yn y Memorandwm, felly defnyddir yr un rhifau yn yr adroddiad hwn yng nghyd-destun y Memorandwm. Mae’r diwygiadau sy’n cynnwys darpariaeth ar gyfer Cymru i’w gweld yng nghymalau 30-35 o’r fersiwn ddiweddaraf o’r Bil ac Atodlen 2 iddi.

**19.** I Loegr yn unig yr oedd y cymalau’n gymwys pan gyflwynwyd y Bil, ond maent bellach yn gymwys i Gymru a Lloegr yn dilyn gwelliannau a gyflwynwyd yn ystod hynt y Bil drwy Dŷ’r Cyffredin.

### Cymal 25

**20.** Mae cymal 25 o’r Bil yn diwygio Deddf Addysg 1996 (“Deddf 1996”) i ychwanegu adran newydd 434A. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i rieni geisio cydsyniad awdurdod lleol i blant penodol gael addysg heblaw yn yr ysgol, er enghraifft, drwy addysg gartref. Rhaid i blant o’r fath fod o oedran ysgol gorfodol a naill ai:

- wedi’u cofrestru mewn ysgol arbennig a gynhelir gan yr awdurdod lleol;
- wedi’u cofrestru mewn ysgol annibynnol sydd, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, yn darparu addysg amser llawn i bersonau y cynhelir cynllun datblygu unigol ar eu cyfer;
- yn destun ymchwiliad o dan adran 47 o Ddeddf 1989 (sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud unrhyw ymholiadau y maent yn barnu eu bod yn angenrheidiol ynghylch plant sy’n destun gorchymyn amddiffyn brys, sy’n cael eu hamddiffyn gan yr heddlu, neu y mae gan yr awdurdod achos rhesymol i ystyried y gallent ddioddef niwed sylweddol); neu
- ar gynllun amddiffyn plant.

[15] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, paragraff 52, 24 Mawrth 2025

**21.** O'u cymhwyso i Gymru, mae'r diwygiadau a wneir gan gymal 25 yn ehangu'r mecanwaith awdurdod lleol presennol lle y mae tynnu plant o ysgolion arbennig, fel y nodir yn y pwynt bwled cyntaf uchod, eisoes yn gofyn am gytundeb awdurdod lleol.

**22.** Bydd rhaid i berchnogion ysgol hysbysu'r awdurdod lleol os ydynt yn dod yn ymwybodol o fwriad rhiant i dynnu plentyn perthnasol o'r ysgol i gael addysg heblaw yn yr ysgol. Gall rhiant neu, gyda chydsyniad y rhiant, berchennog yr ysgol, wneud cais i dynnu plentyn o'r ysgol.

**23.** Mae'r Memorandwm yn nodi bod y cymal hefyd yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru sy'n nodi'r camau y mae rhaid i ysgol eu cymryd i sicrhau nad yw'r plentyn yn cael ei dynnu o'r ysgol cyn i'r awdurdod lleol roi cydsyniad, ac yn gosod dyletswydd ar berchnogion ysgolion i sicrhau nad yw hyn yn digwydd. Nid yw hwn yn bŵer gwneud rheoliadau newydd, ond mae'n defnyddio pŵer sy'n bodoli eisoes yn adran 434 o Ddeddf 1996 i sicrhau y gall rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwnnw wneud darpariaeth o'r fath. Mae'r rheoliadau a wneir o dan adran 434 o Ddeddf 1996 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol yn y Senedd.

**24.** Mae cymal 25 hefyd yn nodi darpariaethau ynghylch:

- awdurdod lleol yn rhoi neu'n gwrthod cydsyniad, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol iddo wneud penderfyniad amserol; pryd y mae rhaid gwrthod cydsyniad; a bod rhaid rhoi ystyriaeth i amgylcheddau dysgu wrth ystyried cais;
- hysbysu ynghylch ceisiadau; ac
- y camau y gall rhieni eu cymryd os ydynt yn cael eu tramgwyddo gan benderfyniad yr awdurdod lleol.

**25.** Dywed y Memorandwm:

> "*I lawer o blant a allai wynebu risg o niwed, mae lleoliadau addysg yn ffactor amddiffynnol. Mae plant nad ydynt yn yr ysgol yn rheolaidd ac felly nad ydynt yng ngŵydd athrawon neu ymarferwyr eraill, yr ystyrir eu bod yn wynebu risg o niwed sylweddol gwirioneddol neu debygol, yn grŵp blaenoriaeth. Y bwriad yw i awdurdodau lleol nodi'n rhagweithiol blant nad*

*ydynt yn yr ysgol yn eu hardal leol a pha rai o'r plant hynny sy'n hysbys i ofal cymdeithasol plant*."[16]

## Cymal 26

**26.** Mae cymal 26 hefyd yn diwygio Deddf 1996 i ddarparu ar gyfer creu cofrestrau gorfodol o blant nad ydynt yn yr ysgol ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, ac i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gefnogi'r plant sydd ar eu cofrestrau, os bydd rhiant yn gofyn am hynny. Rhaid i'r cofrestrau gynnwys manylion plant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol, plant sydd wedi'u cofrestru ond y mae'r ysgol wedi cytuno iddynt fod yn absennol am rywfaint neu'r cyfan o'r amser a derbyn eu haddysg yn rhywle arall, a phlant sydd wedi'u cofrestru ond sy'n mynychu'n rhan-amser.

**27.** Darperir pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru ynghylch cymhwystra i fod ar gofrestr, a ffurf y gofrestr a'i chyhoeddi. Y tro cyntaf y gwneir y rheoliadau hyn, byddant yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Senedd, ac wedi hynny byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Bydd gan Weinidogion Cymru hefyd bŵer i ragnodi mathau penodol o wybodaeth i'w cynnwys ar y gofrestr, a fydd yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Senedd.

**28.** Mae'r darpariaethau'n gosod dyletswydd ar rieni plant sy'n cael eu haddysgu gartref, a darparwyr eraill y tu allan i addysg, i ddarparu gwybodaeth i'w chynnwys ar gofrestr yr awdurdod lleol. Gall methiant rhieni i wneud hynny arwain at gychwyn proses gorchymyn mynychu'r ysgol. Gall methiant darparwyr y tu allan i addysg i wneud hynny arwain at roi dirwy, gyda swm y ddirwy honno'n cael ei bennu gan Weinidogion Cymru. Y tro cyntaf y caiff y swm ei bennu, bydd yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Senedd, ac wedi hynny bydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Mae darpariaeth hefyd ar gyfer rhannu gwybodaeth am resymau diogelu a lles, sy'n golygu bod Gweinidogion Cymru yn rhagnodi pa wybodaeth y gellir ei rhannu a chyda phwy.

**29.** Rhoddir pwerau gwneud rheoliadau pellach i Weinidogion Cymru i ragnodi'r cyfnod lleiaf y mae rhaid i blentyn ei dreulio gyda darparwr y tu allan i addysg er mwyn i'r gofynion rhannu gwybodaeth gael eu gosod ac i ddarparu eithriadau i'r ddyletswydd ar ddarparwyr o'r fath i gydymffurfio â hysbysiad i

[16] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, paragraff 34, 24 Mawrth 2025

ddarparu gwybodaeth. Mae’r ddau bŵer yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Senedd.

## Cymal 27

**30.** Mae cymal 27 yn cyflwyno newidiadau i’r broses gorchymyn mynychu’r ysgol i’w gwneud yn fwy effeithlon a lleihau’r amser y mae plant yn ei dreulio mewn addysg anaddas. Mae’r darpariaethau newydd:

- yn cyflwyno amserlenni statudol ar gyfer dyroddi a phrosesu gorchmynion mynychu’r ysgol;
- yn ei gwneud yn drosedd i rieni dynnu plentyn sy'n destun gorchymyn mynychu’r ysgol o'r ysgol heb ddilyn gweithdrefn; ac
- yn sicrhau bod y gosb uchaf am dorri gorchymyn mynychu’r ysgol yn gydnaws â’r gosb uchaf am y drosedd o fethu, yn fwriadol, â sicrhau bod plentyn yn mynychu'r ysgol.

**31.** Rhoddir pŵer i awdurdodau lleol i adolygu ai bod yn yr ysgol sydd er budd pennaf y plentyn a mynnu bod y plentyn wedi ei gofrestru mewn ysgol, pan fo’r plentyn yn destun ymchwiliad o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989 neu ar gynllun amddiffyn plant ac eisoes yn cael ei addysgu gartref.

**32.** Mae’r darpariaethau’n cynnwys manylion ynghylch sut y mae gorchymyn mynychu’r ysgol yn gweithio’n ymarferol.

**33.** Darperir pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i ragnodi manylion gorchymyn mynychu’r ysgol, sy’n ddarostyngedig i weithdrefn graffu negyddol y Senedd.

## Cymal 28

**34.** Mae'r cymal hwn yn ymdrin â diogelu data. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod y gwaith o drin a phrosesu gwybodaeth o dan y dyletswyddau newydd a osodir ynghylch ceisiadau am gydsyniad i dynnu plentyn perthnasol o’r ysgol; plant nad ydynt ar gofrestrau ysgolion; y drosedd o fethu â chydymffurfio â gorchymyn mynychu’r ysgol; neu ddarparu gwybodaeth gan ddarparwyr y tu allan i addysg, yn digwydd yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

## Cymalau 29 a 30 ac Atodlen 1

**35.** Mae cymal 29 yn mewnosod darpariaeth yn Neddf 1996 i sicrhau bod rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â phlant nad ydynt ar gofrestrau ysgolion a dirymu gorchmynion mynychu'r ysgol.

**36.** Nid oes unrhyw fanylion wedi'u cynnwys yn y Memorandwm ynghylch cymal 30 ac Atodlen 1, er y cyfeirir atynt ym mhennawd Rhan 2. Mae cymal 30 yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n nodi diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â chymal 27.

**37.** Cafodd Cymal 30 ac Atodlen 1 eu cynnwys wedi hynny ym Memorandwm Rhif 3, ac erbyn hynny roeddent wedi cael eu hailrifo'n gymal 35 ac Atodlen 2.

## Cymal 26

**38.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn rhoi manylion cymal 26 newydd y ceisir cydsyniad ar ei gyfer. Mae hwn yn gymal gwahanol i'r cymal 26 a drafodir yn y Memorandwm ac y manylir arno uchod.

**39.** Mae'r diwygiadau arfaethedig i gymal 26 o'r Bil yn ymwneud â Rhan II o Ddeddf 1933, ac adran 18 yn bennaf. Mae adran 18 yn nodi terfynau oedran a chyfyngiadau ar yr oriau y caiff plant weithio a'r math o waith y cânt ei wneud. Mae'n cynnwys pŵer i awdurdodau lleol i wneud is-ddeddfau a all ymdrin â materion fel ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gael trwydded cyflogaeth plant gan yr awdurdod lleol cyn i blentyn ddechrau gweithio; rhagnodi'r oriau, yr amseroedd a'r math o waith y caiff plant ei wneud; ac awdurdodi cyflogi plant 13 oed i wneud gwaith ysgafn ("light work"). Mae ffurf enghreifftiol o is-ddeddfau o'r fath ar gael i awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwr gael trwydded gyflogaeth gan yr awdurdod lleol cyn cyflogi plentyn. Mae is-ddeddfau o'r fath yn cael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru. O dan adran 21 o Ddeddf 1933, mae'n drosedd cyflogi plentyn yn groes i'r darpariaethau yn Rhan II o Ddeddf 1933 neu fel y nodir mewn is-ddeddfau awdurdodau lleol.

**40.** Mae'r diwygiadau arfaethedig i gymal 26 yn rhan o ddisodli adran bresennol 18 o Ddeddf 1933 i roi pŵer gwneud rheoliadau newydd i Weinidogion Cymru, sef yr awdurdod cenedlaethol priodol ("the appropriate national authority"), i reoleiddio cyflogaeth plant yng Nghymru. Mae hyn yn disodli'r pŵer presennol sydd gan awdurdodau lleol i wneud is-ddeddfau yn y maes hwn. Ni fyddai awdurdodau lleol ond yn gallu rhoi trwydded ar gais a wneir yn unol ag unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

**41.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi bod rheoliadau o dan y pŵer arfaethedig yn y Bil yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru awdurdodi cyflogi plant 13 oed mewn mathau penodol o waith ysgafn, gwneud darpariaeth mewn perthynas â thrwyddedau cyflogaeth plant (gan gynnwys y broses ymgeisio, yr hyn y mae rhaid ei gynnwys mewn trwydded, dirymu trwyddedau neu osod amodau a hawliau i apelio yn erbyn gwrthod trwydded), a chadw cofnodion. Bydd diwygiadau arfaethedig eraill yn galluogi plant i weithio am fwy na 2 awr ar ddydd Sul a chyn neu ar ôl ysgol (er nad yw cyfanswm yr oriau y caiff plentyn weithio a'r math o waith y caiff ei wneud wedi newid).

**42.** Mae paragraff 26 o Femorandwm Rhif 2 yn nodi bod effeithiau eraill y diwygiadau arfaethedig i gymal 26 o'r Bil yn cynnwys:

- Gwahardd cyflogi plentyn heblaw yn unol â thrwydded.
- Caniatáu i blentyn weithio tan 8pm. Mae hyn yn lle 7pm, ond mae'n dal i fod yn gyson â rhwymedigaethau rhyngwladol.
- Dileu'r cyfyngiad sy'n golygu mai dim ond am ddwy awr y caiff plant weithio ar ddydd Sul. Fodd bynnag, bydd nifer yr oriau y caiff plentyn weithio mewn wythnos yn aros yn ddigyfnewid.
- Caniatáu i blentyn weithio am awr cyn ysgol. Mae hyn eisoes yn cael ei ganiatáu o dan y rhan fwyaf o is-ddeddfau awdurdodau lleol.

**43.** Dywed Memorandwm Rhif 2:

> *"Mae hawliau a dyletswyddau cyflogaeth wedi'u cadw yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; fodd bynnag, mae diogelu/lles yn faterion wedi'u datganoli. Ar hyn o bryd mae Rhan II o Ddeddf 1933 yn berthnasol i Gymru a Lloegr ac mae'n nodi terfynau oedran a chyfyngiadau ar yr oriau y caiff plant weithio a'r math o waith y gellid eu cyflogi i'w wneud. Mae adran 18 o Ddeddf 1933 yn gwneud darpariaeth hefyd i awdurdodau lleol wneud is-ddeddfau mewn cysylltiad â chyflogaeth plant."*[17]

## Cymal 63

[17] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, paragraff 21, Mai 2025

**44.** Mae cymal 63 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth ganlyniadol gan gynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys i Ddeddfau'r Senedd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw bwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru yn y Bil ac mae Memorandwm Rhif 3 yn nodi bod y mater hwn wedi'i godi gyda Llywodraeth y DU.

### Cymal 66

**45.** Mae cymal 66 o'r Bil yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i ddod â'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â phlant nad ydynt yn yr ysgol i rym yng Nghymru. Nid yw Memorandwm Rhif 3 yn nodi pa un o weithdrefnau'r Senedd (os oes un) y bydd yr is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud yn ddarostyngedig iddi. Mae Rheol Sefydlog 29.3(iv) yn nodi y dylai memorandwm cydsyniad deddfwriaethol nodi hyn.

## Dull craffu

**46.** Gwnaethom drafod y Memorandwm am y tro cyntaf yn ein cyfarfod ar 2 Ebrill. Yn y cyfarfod hwnnw, gwnaethom gytuno i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a'r Comisiynydd Plant. Codwyd pwyntiau technegol yn ein llythyr at Lywodraeth Cymru, yn gofyn am eglurhad ynghylch a oedd angen cydsyniad y Senedd ar gyfer rhai cymalau.[18]

**47.** Ar 1 Mai 2025, ysgrifennodd y Comisiynydd Plant atom yn nodi ei chefnogaeth i'r Memorandwm. Fe'i galwodd yn gam sylweddol tuag at gryfhau diogelu plant yng Nghymru. Canmolodd Lywodraeth Cymru am fanteisio ar y cyfle i wella mesurau amddiffyn plant, ond tynnodd sylw at y ffaith nad oedd y Memorandwm yn cyfeirio at hawliau plant, ac nad oedd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i gyhoeddi i gyd-fynd â'r Memorandwm:

> *"… I would strongly urge the publication of a CRIA which sets out why these particular proposals have been selected to apply to Wales (and not other provisions of the Bill) and what actions the Welsh Government are taking on any areas where they have chosen not to legislate."*[19]

**48.** Yna, gwnaethom ysgrifennu at y Comisiynydd Plant i ofyn am ei barn am y darpariaethau yng nghymal 11, gyda chwestiynau penodol am effaith y newid

[18] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, 7 Mai 2025
[19] Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth Gomisiynydd Plant Cymru, 1 Mai 2025

deddfwriaethol arfaethedig hwn yng Nghymru.[20] Roedd gennym ddiddordeb arbennig yn ei barn am yr elfen hon o'r Memorandwm oherwydd ein gwaith craffu blaenorol ar brofiadau plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac yn benodol y pryderon sylweddol a glywsom am nifer y plant yng ngofal awdurdodau lleol Cymru a oedd yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid.[21]

**49.** Yn ei hymateb, nododd y Comisiynydd Plant, gan fod y ddarpariaeth hon yn dod o "gyfeiriad polisi nad arweiniwyd gan Lywodraeth Cymru", ei bod yn deall pam nad oedd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno eu deddfwriaeth ei hun. Er hynny, roedd ganddi bryderon ynghylch y "manylion cyfyngedig sydd ar gael ynghylch sut bydd y math newydd o ddarpariaeth a ragwelir yn gweithredu." Gan fod Cymru yn cymryd camau i ddileu elw o wasanaethau gofal plant, nid oedd yn eglur iddi a allai'r trefniadau newydd hyn gynnwys elfen o elw. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod ei chyd-Gomisiynydd yn Lloegr ac elusennau plant eraill yn rhannu pryderon am y llety newydd. Cododd nifer o gwestiynau eraill, a dywedodd "ar hyn o bryd, nid oes digon o fanylion ar gael i fedru cefnogi'r cynigion hyn yn bendant."[22]

**50.** Yn ogystal, cawsom ohebiaeth oddi wrth bobl yn codi pryderon ynghylch cymalau 25-30 ac Atodlen 1 yn y Memorandwm gwreiddiol, sy'n ymwneud â phresenoldeb yn yr ysgol. Daeth tri darn o ohebiaeth oddi wrth unigolion[23] a dau oddi wrth sefydliadau: Education Otherwise[24] a Home Ed Cymru.[25] Roedd rhai o'r pryderon a godwyd ganddynt yn cynnwys:

- diffyg craffu yn San Steffan ac yn y Senedd;

[20] Llythyr at Gomisiynydd Plant Cymru oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, 7 Mai 2025
[21] Gwefan Senedd Cymru, Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical [fel ar 9 Gorffennaf 2025]
[22] Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth Gomisiynydd Plant Cymru, 16 Mehefin 2025
[23] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mehefin 2025, Papur i'w nodi 5.10, Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Gwybodaeth gan unigolyn Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Mehefin 2025, Papur i'w nodi 3.1, Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Gwybodaeth gan unigolyn ac Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mehefin 2025, Papur i'w nodi 5.1, Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Gwybodaeth gan unigolyn
[24] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Papur i'w nodi 4.7, Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Gohebiaeth e-bost at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth Education Otherwise
[25] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Papur i'w nodi 4.8, Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Gohebiaeth e-bost at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth Home Ed Cymru ac Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Mehefin 2025, Papur i'w nodi 4.1, Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Gwybodaeth gan Home Ed Cymru

- sut y bydd y cynigion yn rhyngweithio â deddfwriaeth a pholisi diweddar sy'n benodol i Gymru;
- cyfreithlondeb y cynigion;
- diffyg ymgynghori â'r rhai sy'n addysgu gartref a phlant a phobl ifanc;
- diffyg camau unioni yn y cynigion; a
- faint o ddata a gesglir a natur bersonol y data a gesglir.

At hynny, cysylltwyd â phob un ohonom yn unigol yn rhinwedd ein swyddi fel Aelodau etholaethol a rhanbarthol. Nodwn y pryderon hyn.

**51.** Gwnaethom drafod Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 12 Mehefin a Memorandwm Rhif 3 yn ein cyfarfod ar 25 Mehefin 2025.

**52.** Nodwn fod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi clywed tystiolaeth lafar ar y Memorandwm gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ar 12 Mai 2025.

# 3. Ein barn ni

**53.** Rydym yn cytuno â safbwynt Llywodraeth Cymru fod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer pob un o'r cymalau a drafodir yn y Memorandwm a'r Memoranda Atodol.

**Conclusion 1.** Mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 11, 20, 25-30 ac Atodlen 1 (fel y nodir yn y Memorandwm); cymal 26 (fel y nodir ym Memorandwm Rhif 2); a chymalau 35, 63 a 66 (fel y nodir ym Memorandwm Rhif 3).

**54.** Rydym wedi ein bodloni y dylai'r Senedd roi cydsyniad ar gyfer yr holl gymalau a drafodir yn y Memorandwm a'r Memoranda Atodol.

**Recommendation 1.** Dylai'r Senedd roi cydsyniad ar gyfer cymalau 11, 20, 25-30 ac Atodlen 1 (fel y nodir yn y Memorandwm); cymal 26 (fel y nodir ym Memorandwm Rhif 2); a chymalau 35, 63 a 66 (fel y nodir ym Memorandwm Rhif 3) o'r Bil Lles Plant ac Ysgolion.